

cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Peth da ar achlysuron arbennig megis Gŵyl Ddewi (fel y bu i ni ei dathlu yn ddiweddar) yw edrych yn ôl a diolch i Dduw am ei waith rhyfeddol yn ein gwlad mewn canrifoedd a fu. Mae hefyd yn gyfle i ni ystyried faint yw hi o'r gloch yn ysbrydol yn ein gwlad ar y foment. Roedd cyfnod Dewi yn sicr yn un o'r cyfnodau mwyaf llewyrchus yn ysbrydol yng Nghymru, a'r sôn am Iesu Grist yn lledu trwy'r wlad drwy ymdrechion Dewi a llu o bregethwyr teithiol eraill.

Beth yw'r sefyllfa heddiw? Yn ôl yng Nghyfrifiad 2001 gwnaeth 72% o bobl Cymru ddatgan eu bod yn Gristnogion. Ar un wedd roedd hwn yn ganlyniad calonogol – ond eto yn dipyn o ddryswch o ystyried mai dim ond tua 10% o'r boblogaeth, ar y mwyaf, oedd yn mynychu unrhyw fath o le o addoliad yn y cyfnod hwnnw. Mae'n amlwg bod y diffiniad o beth oedd bod yn Gristion yn un llydan iawn i lawer, yn air efallai yn ymwneud mwy â diwylliant a

ffordd o fyw, nag argyhoeddiad crefyddol. A chanlyniad Cyfrifiad 2011 ar gael bellach, cawn fod y canran sy'n dweud eu bod yn Gristnogion wedi gostwng i tua tri ym mhob pump. Beth a wnawn o hyn? Mae'n debygol mai'r cyfan a ddigwyddodd yw bod to o bobl hyn a ystyriai eu hunain yn Gristnogion yn 2001 bellach wedi marw, ac nad yw'r to iau sydd wedi cymryd eu lle yn eu hystyried eu hunain yn yr un modd. Mae hyn wrth gwrs yn ymateb digon gonest. Mae'n annhebygol mai'r rheswm dros y gostyngiad yw bod tyrfa helaeth o bobl o argyhoeddiad Cristnogol wedi penderfynu gwadu eu ffydd.

Serch hynny digon truenus yw'r sefyllfa, ac fe erys gwaith mawr i ni ei wneud yn ein gwlad wrth roi'r sialens i bobl mai gwir Gristnogaeth yw profi'r ailenedigaeth, edifarhau am bechod a rhoi ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Adnabod y Du

Steffan Jones

Ymweliad ag Athen - tua 51 o.c.

Yng nghanol y ganrif gyntaf mae'r Apostol Paul yn ymweld ag Athen. Nid hanes a phensaernïaeth y ddinas sy'n dal sylw'r ymwelydd hwn, ond ei chyflwr ysbrydol. Mae'n sylwi ar y llefydd cysegredig a'r beirdd amlwg, ac ar ôl cyrraedd bryn Areopagus mae'n annerch yr uwch-gyngor: 'Yr wyf yn gweld ar bob llaw eich bod yn dra-chrefyddgar'. (Actau 17:22)

Dechrau digon cadarnhaol, ond nid dyna ddiwedd ei neges: 'Wrth fynd o gwmpas ac edrych ar eich pethau cysegredig cefais yn eu plith allor ac arni'n ysgrifenedig, 'I'R DUW ANHYSBYS.' (Actau 17:23) Er gwaetha'r holl ddefosiwn crefyddol maent yn parhau yn y tywyllwch am Dduw. Duw anhysbys sydd ganddynt. Dyma gyfle euraidd i Paul, ac mae'n mynd ati i egluro cymeriad y gwir Dduw, Creawdwr pob peth.

Ymweliad â Chymru – 2013 O.C.

Tybed beth fyddai ymateb Paul petai'n ymweld â Chymru heddiw? Byddai'n sylwi ar yr holl

gapeli ac eglwysi ar bob cornel, a'r llythrennau hynny y mae'n amhosibl eu hosgoi – *Llan* – yn disgrifio, yn wreiddiol, eglwys a'r tir o'i chwmpas: cymunedau wedi eu sefydlu gan genhadon Iesu Grist tua 1500 o flynyddoedd yn ôl. Mae Paul yn clywed am Dewi, un o'r pregethwyr yma, ac yn rhyfeddu bod y genedl yn dal i gofio amdano bob blwyddyn ar Fawrth 1af.

Mae'n darganfod mai cyfieithiad William Morgan o'r Beibl yw'r llyfr pwysicaf yn hanes y genedl, ac yna'n clywed am feirdd fel William Williams, Pantycelyn ac Ann Griffiths. Mewn bocs lliwgar a bywiog yng nghornel yr ystafell, mae Paul yn gweld miloedd o bobl mewn stadiwm yn canu un o ganeuon Pantycelyn: 'Guide me o thou great Jehovah.' Mae'n tybio eu bod yn canu am Iesu Grist am fod 59% o boblogaeth o'r wlad yn eu hystyried eu hunain yn Gristnogion.

'Yr wyf yn gweld ar bob llaw eich bod yn bobl dra-chrefyddgar.'

w byw

Ond daw'n amlwg mai rhywbeth arwynebol yw'r grefydd hon mewn gwirionedd. Ar ôl ymchwilio ymhellach, mae Paul yn dysgu bod un capel yn cau bob wythnos yng Nghymru. Mewn rhai rhannau o dde Cymru, mae 52% o'r boblogaeth yn honni eu bod yn ddi-grefydd. Does dim un wlad arall yn y Gorllewin wedi dirywio'n ysbrydol mor gyflym â hon.

Er gwaetha'r holl hanes a thraddodiad Cristnogol, mae ansicrwydd mawr am natur person a chymeriad Duw. Does dim perthynas fywiol â Duw, ac mae cymysgwch mawr am ei ewylllys a'i ffyrdd. Duw anhysbys sydd gan nifer o'r Cymry.

Tybed a yw hyn yn ddisgrifiad ohonoch chi? Rydych yn

gwerthfawrogi'r dreftadaeth Gristnogol, ond wrth i chi fynd i'r cwrdd a chanu'r emynau, mae Duw yn ymddangos yn ddieithr ac amhersonol. Duw anhysbys sydd gennych chithau.

Y Duw byw

Mae ymateb Paul i bobl Athen yn werthfawr am ei fod yn dangos bod modd adnabod y Duw byw (gweler Actau 17: 23-31).

Y peth cyntaf mae'n ei nodi yw mawredd a gallu Duw. Ef yw Creawdwr 'y byd a phopeth sydd ynddo', ac ef 'sy'n rhoi i bawb fywyd a canadl a'r cwbl oll.' Rydym yn gwbl ddibynnol arno. Duw yw Creawdwr a chynhaliwr pob peth: mae e'n bell ac yn wahanol i ni, yn fawr ac yn sanctaidd a godidog. Ond eto, daw'r Duw hwn yn agos



at ei greadigaeth: 'nid yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom', meddai Paul.

Daw'n agos yn y greadigaeth ei hun. Gwelwn arwyddion o gymeriad Duw yng ngogoniant, prydferthwch ac amrywiaeth y byd o'n cwmpas. Yna daw'n agos trwy ein cydwybod. Mae ymwybyddiaeth o dragwyddoldeb a chyfraith Dduw wedi ei gosod yng nghalon pob person, ond oherwydd ein pechod rydym yn gwadu hyn. Wedyn daw Duw'n agos yn y Beibl, sef Gair uniongyrchol Duw (2 Tim. 3:16).

Ond yn fwyaf oll, daw Duw'n agos drwy Iesu Grist. 'Daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith' (Ioan 1:14). Wrth edrych ar fywyd a dysgeidiaeth Iesu daw holl nodweddion Duw yn amlwg. A thrwy gredu ac ymddiried ym marwolaeth aberthol Iesu Grist ar y groes, daw'r ffordd yn glir i ni fwynhau perthynas dragwyddol â'r Duw byw.

Wrth i David Watson, efenglydd nodedig yn yr ugeinfed ganrif, farw o gancr, dywedodd y geiriau hyn: 'When I die, it is my firm conviction that I shall be more alive than ever, experiencing the full

reality of all that God has prepared for us in Christ.' Nid rhywbeth academiaidd yw adnabod y Duw byw: mae'n trawsnewid popeth. Yn olaf, mae Paul yn rhybuddio ei wrandawyr: 'Gosododd Duw ddiwrnod pryd y bydd yn barnu'r byd mewn cyfiawder.'

Mae cael Duw anhysbys yn boblogaidd a ffasiynol heddiw - pa hawl sydd gennym ni i siarad am wirionedd absoliwt? Ond mae pen-draw parhau'n anwybodus yn frawychus. Daeth Duw yn agos fel y byddwn yn medru osgoi barn, a chael maddeuant am ein pechodau, a bywyd tragwyddol.

*O deued dydd pan fo awelon
Duw
yn chwythu eto dros ein
herwau gwyw,
a'r crindir cras dan ras
cawodydd nef
yn erddi Crist, yn ffrwythlon
iddo ef,
a'n heniaithfwyn â gorfoleddus
hoen
yn seinio fry haeddiannau'r
addfwyn Oen.*

Boed i hyn fod yn wir am ein calonnau a'n bywydau ninnau hefyd.

Korea...

Gwydion Emlyn

Bydd nifer yn ymwybodol o'r cysylltiad agos rhwng coleg WEST â Korea. Yn sgîl y cysylltiad hwn bu Gwydion Emlyn, sy'n fyfyrwr yn y coleg, yn ymweld â Korea yn ddiweddar. Gobeithio cawn glywed yn fuan am hanes llawn ei daith, naill ai yma yn y Cwmpawd neu mewn cwrdd eglwys. Ond yn yr erthygl hon, mae Gwydion yn rhannu gair o brofiad am ddechreuad anodd y daith.

Alla i ddim ysgrifennu am fy mhrofiad yn Korea heb sôn am dostrwydd. Wrth gwrs, nid dyma uchafbwynt fy mhrofiad yn y wlad honno ond yr isafbwynt . . .

Ar ôl i mi gyrraedd Korea ar y 9fed o Ionawr, dechreuais i deimlo'n dost iawn. Treuliais ddwy noson yn yr ysbyty a pharhaodd y tostrwydd am wythnos gyfan. Ar ôl tri diwrnod o fod yn dost roeddwn yn ymbaratoi i ddod adre – roeddwn wedi cael llond

bol. Y cynllun oedd gwella ychydig ac yna teithio'n ôl cyn gynted â phosib.

Gadewais yr ysbyty ar y prynhawn Sul, a dywedais wrth Lloyd (myfyriwr arall a oedd wedi dod i Korea gyda fi) fy mod i'n benderfynol o adael Korea o fewn diwrnod neu ddau. Ond ces i'r ymateb mwyaf anisgwyl ganddo. Dywedodd wrthyf fy mod i'n hollol hunanol, nad oeddwn i'n dioddef fel y dylai Cristion ddioddef, a fy mod i wedi rhoi lan ar waith Duw yn rhy hawdd. 'Mae'r Cristion,' meddai Lloyd, 'yn genhadwr ble bynnag mae'n mynd.' Ei ddadl oedd y dylwn i aros yn Korea am fy mod i'n genhadwr ac yn cynrychioli WEST [Wales Evangelical School of Theology] a Christnogaeth Cymru.

Cefais fy atgoffa am y Cymro Robert Jermain Thomas, merthyr protestannaidd cyntaf Korea. Roedd e tua'r un oedran â mi, ac o fewn blwyddyn iddo gyrraedd

China, bu farw ei wraig wrth roi genedigaeth. Dyna boen a dioddefaint a brofodd y dyn ifanc hwnnw, ond wnaeth hynny ddim ei dynnu oddi wrth waith yr Efengyl. Aeth e i Korea, ac ym mis Medi 1866, wedi cyrraedd y wlad, cafodd ei ladd. Wrth i'w ddiennyddiwr godi ei gleddyf i dorri ei ben i ffwrdd, estynnodd Robert Thomas Feibl iddo, ei weithred olaf cyn marw.

Roedd Robert Thomas wedi bod trwy gymaint o dreialon, a dyma fi ar y llaw arall mewn ysbyty cyfforddus yn cwyno fy mod i eisiau mynd adre am fy mod i wedi bod yn dost – hunanoldeb llwyr! Dangosodd Duw i mi faint o bechod oedd ynof i ond

fy mod i wedi bod yn cuddio'r peth oherwydd fy mod i'n falch. Arweiniodd yr Ysbryd Glân fi i edifarhau a gofyn i Dduw am faddeuant.

Felly arhosais yn Korea tan ddiwedd y tair wythnos. Daeth yr Efengyl yn glir i mi; mae'r Efengyl fel drych. Gwelais i fy hun: y pechadur trist. Yna gwelais ras Duw: y Mab glân oedd wedi marw drosod i. Ar ôl gwella roedd fel petai bywyd newydd ynof i; teimlad o ryddhad a gorfoledd yng Nghrist. Yr wythnos gyntaf yn Korea oedd un o wythnosau gwaethaf fy mywyd. Ond roedd y pythefnos olaf yn un o'r amseroedd gorau a gefais erioed. Ond stori arall yw honno.



...i China

Meirion Thomas

Daeth Meirion Thomas i'n harwain mewn cwrdd gweddi yn ddiweddar, gan droi ein golygon at waith Duw yn China. Gwnaeth hynny drwy ganolbwyntio ar waith unigolion mewn drwy ardal arbennig, er mwyn ffocysu'n gweddïau. Yn yr erthygl hon, cawn esiampl arall o genhadon yn cael cyfle i ymestyn allan a rhannu eu ffydd drwy gyfrwng gwaith cymunedol.

Yn rhanbarth Chongqing yng nghanol China mae 30 miliwn o bobl yn byw. Ble bynnag yr edrychwch, dim ond fflatiau uchel uchel a welwch chi, ac mae ffyrdd newydd yn ymddangos ym mhobman. Mae'r economi, busnes a thechnoleg yn llwyddo'n aruthrol yma. Mae gofalu am ei 30 miliwn o bobl yn dipyn o her i'r llywodraeth, ac felly mae hithau'n croesawu cymorth asiantaethau. Gofal iechyd ac addysg, dyna ddau faes sy'n agor cyfleoedd lu i Gristnogion wasanaethu yn China heddiw.

Mae un asiantaeth Gristnogol wedi gweld rhai anghenion amlwg ymhlith y gymuned o weithwyr sydd wedi dod i'r ddinas i gael gwaith. Ac mae wedi mynd ati i drio gwneud rhywbeth.

Helpu gydag addysg plant a phobl ifanc, gan agor canolfan iddynt gael dod i wneud eu gwaith cartref. Dysgu Saesneg. Gweithio gydag asiantaethau maethu a mabwysiadu. Gwersylloedd haf. Mae hyn i gyd wedi bod yn fodd i'r eglwys leol ddod i nabod y bobl yn eu cymuned.

Mae'r un asiantaeth wedi arloesi hefyd ym maes iechyd. Mae wedi sefydlu rhaglenni i gynnig gofal i gleifion ar ôl iddyn nhw fynd adref o'r ysbyty. Gwasanaeth newydd sbon i'r gymuned yw hwn.

Mae gweinidog yr eglwys sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith yn dweud nad dim ond cyhoeddi'r

Efengyl y mae am ei wneud. Mae hefyd eisiau dangos Crist drwy gariad aberthol ac agwedd gwas.

Mae Rh yn byw ac yn gweithio yn ardal YY, nid nepell o Chongqing. Mae Rh yn dod o'r Alban yn wreiddiol, ond wedi byw yn China ers dros 20 mlynedd erbyn hyn. Dysgu Saesneg mae hi wedi bod yn ei wneud yno'n bennaf. O dipyn i beth, daeth hi'n ymwybodol o'r amrywiaeth diddorol o grwpiau lleiafrifol yn y trefi a'r pentrefi. Mae 56 o grwpiau ethnig swyddogol yn China gyfan. Fe gwrddodd Rh â rhai oedd yn perthyn i grŵp lleiafrifol y Tujia. Tua 170,000 o bobl sy'n siarad iaith Tujia, sef canran isel iawn o'r boblogaeth. Does dim o'r Beibl wedi'i gyfieithu i'w hiaith nhw; eto i gyd, mae rhai yn eu plith yn Gristnogion, ac yn YY mae tair eglwys gofrestredig a thair eglwys sy'n cwrdd mewn tai. Cynulleidfaoedd bach ydyn nhw, fodd bynnag. Mae llawer o'r dynion a'r bobl ifanc yn gadael yr ardal ac yn ceisio cael gwaith yn y ddinas, gan adael yr eglwysi yn nwylo'r menywod, y plant a llawer o bobl hŷn.

A Rh ei hun yn dod o wlad fechan, cafodd ei denu at y grŵp ethnig lleiafrifol yma, ac roedd y ffaith bod eu hiaith yn colli tir, ynghyd â sawl elfen o'u diwylliant a'u treftadaeth, yn destun tristwch iddi. Mae Rh yn teimlo bod iaith, diwylliant ac ethnigrwydd yn rhan o'r amrywiaeth gwyb y mae Duw wedi'i greu, a'i gweledigaeth yw y bydd llawer o bobl y Tujia, un dydd, ymhlith y bobloedd y mae Datguddiad 7:9 yn sôn amdanynt. Mae hi am eu gweld yn defnyddio'u hiaith a'u treftadaeth i ogoneddu Duw. Mae Rh wedi ymchwilio'n ddiwyd i'r diwylliant ac wedi llwyddo i godi pontydd lawer o gyfeillgarwch a chysylltiadau yn sgil ei diddordeb, ei gwerthfawrogiad a'i dealltwriaeth o bobl y Tujia. Dydy'r iaith ddim wedi cael ei hysgrifennu erioed, felly dim ond ar lafar y mae wedi gallu dysgu ambell frawddeg a dywediad.

Mae'r rhan fwyaf o amser Rh yn mynd ar weithio gydag asiantaeth o'r enw O Galon i Galon. Mae gan yr asiantaeth yma raglenni i blant a phobl

ifanc ym mhentrefi a threfi rhanbarth YY, i gynnig addysg a phrosiectau datblygu, a gosod plant amddifad a thlawd iawn mewn teuluoedd maeth neu drefnu eu bod yn cael eu mabwysiadu. Mae'r holl elfennau hyn i'r weinidogaeth sy'n cael eu gwneud yn enw Crist yn agor drysau o bob math i rannu'r Efengyl. Yn rhannol yn sgil cysylltiadau â theuluoedd y gymuned dros y blynyddoedd, mae pobl wedi dod i gredu ac mae Rh wedi gweld cryn ffrwyth i'r gwaith. Mae

mentora, disgyblu a hyfforddi pobl ifanc wedi bod yn her, ond yn llawenydd ar yr un pryd.

Mynegodd hefyd yr hoffai weld yr eglwys yn cael gwell dysgeidiaeth ac yn tyfu yn ei gwybodaeth ddiwinyddol yn ogystal ag mewn sancteiddrwydd bywyd a fydd wedyn yn treiddio i'w thystiolaeth i bawb. Beth am weddïo drosti hi a'r gwaith gwyach hwn?



Christmas Evans

...yng Nghaerffili a Chaerdydd

Profodd Christmas Evans amser o fendith a gwrthwynebiad yn ystod ei weinidogaeth gyntaf gyda'r Bedyddwyr yn sir Fôn. Bregus oedd ei iechyd a digon tlawd oedd ei amgylchiadau tymhorol. Nid oedd yntau'n ddoeth bob amser, yn arbennig felly yn ei wrthwynebiad i gael pregethwyr ifanc i'r ynys. Pan ddaeth galwad o Gaerffili ym 1826, atebodd yn gadarnhaol. Cychwynodd ar ei daith i'r De, a'i holl eiddo oedd y ceffyl a farchogai ac ychydig arian yn ei boced.

Daeth i weinidogaethu yng nghapel newydd Tonyfelin, a chael cyflog o £40 y flwyddyn gyntaf, a £48 y flwyddyn ganlynol. Ond talai £12 am gynnal ei geffyl, a £10 i gadw morwyn. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ôl cyrraedd oedd galw'r bobl at ei gilydd i weddio am ddiwygiad. Credai'n gryf fod angen tywalltiad o'r Ysbryd Glân i fywhau'r eglwys ac achub y byd. Disgynnodd yr Ysbryd

arnynt, ac yn ystod dwy flynedd derbyniwyd tua 140 yn aelodau. Roedd anghenion eraill hefyd. Synhwyrodd rhai o'r bobl fod eisiau gwraig ar y gweinidog, ac yntau'n ŵr gweddw. Pan drafodwyd y mater, gwnaeth Christmas Evans hi'n gwbl glir na fyddai neb yn gwneud y tro ond Mary Jones, ei forwyn yn sir Fôn. Aeth cyfaill iddo i sir Fôn, gyda dau geffyl i hebrwng y forwyn i Gaerffili.

Nid oedd popeth yn esmwyth yn ei le newydd chwaith. Roedd yr eglwys braidd yn llac yn gweinyddu disgyblaeth, a'r gweinidog yn rhy barod i ddisgyblu. Daeth galwad o Tabernacl, Caerdydd, ac unwaith eto bu rhaid ystyried symud. Penderfynodd wneud hynny yng nghysgod profiad a gafodd wrth fynd dros y mynydd o Dongwynlais i Gaerffili. Disgynnodd ysbryd gweddi arno. Treuliodd amser maith yn ymbilio a thywallt ei enaid gerbron Duw. Teimlodd agosrwydd Iesu

Grist. Sicrhawyd ef y dylai fynd i Gaerdydd, i weinidogaethu yn y capel Cymraeg cyntaf yn y ddinas.

Cafodd addewid o gyflog o £60 y flwyddyn; cyflog arbennig o dda yn y cyfnod hwnnw. Ond ar ddiwedd y tri mis cyntaf, dim ond £10 a dderbyniodd, a thalai £12 o rent. Ni phrofodd ddylanwadau nerthol yr Ysbryd yng Nghaerdydd. Ac yma eto, roedd tyndra. Roedd y cynweinidog yn dal yno, er ei fod yn euog o anfoesoldeb. Credai rhai y dylid gweddïo dros berthnasau'r meirw, ond er bod hyn yn gwbl ddiniwed, gwrthwynebai'r gweinidog yr arfer yn gryf iawn; iddo ef, roedd yr arferiad yn sawru o Babyddiaeth. Ym 1829, dychwelodd Christmas Evans i sir Fôn.

Mae dau beth o leiaf i'w cofio am Christmas Evans. Yn gyntaf, ei bwyslais ar waith yr Ysbryd Glân mewn diwygiad. Dyma iddo ef oedd ffynhonnell gwir fywyd ysbrydol yn yr eglwysi. Ac yn sicr, rhaid cofio amdano fel pregethwr hynod. Roedd ganddo ddychymyg byw a gallu disgrifiadol cyfoethog. Medrai

greu sefyllfa ddramatig, a hefyd alegori i egluro ei destun. Un o'i bregethau cofiadwy yw'r bregeth ar 'Cyfiawnder y Ddeddf, Cyfiawnder Ffydd'. Dyma syniad o'r cynnwys a'r olygfa mewn llys barn. 'Yn y llys y bore hwnnw, yr oedd y Carcharor, y Cyfreithiwr Cyffredinol, Mr Diofalgwch, Mr Gwneud y Gorau, Mr Edifeirwch, ac yn bwysicach fyth Trugaredd', sef, 'un o Bendefigesau Palas y Brenin ym mraich gŵr ieuanc tecach na meibion dynion'. Galwai'r tystion, a phob un ohonynt yn euog. Ond daeth y 'gŵr ieuanc', y cyfiawn i gymryd lle yr anghyfiawn. Trwy ffydd cyfrifid ei gyfiawnder ef i'r anghyfiawn. Medrai'r Barnwr fod yn gyfiawn a thrugarog.

Dyma bennill o waith Christmas Evans:

*Y fraich fu'n hollti'r môr,
A throi Iorddonen gref,
Sy'n awr yn dal y gwan
I deithio tua'r nef;
Mae dwyfol rym ym mraich fy Nuw
I gadw'r eiddil gwan yn fyw.*

Noel Gibbard

Adolygiad: Life

Catrin Lewis

Weithiau byddwch yn mwynhau llyfr ac yn gobeithio na fydd neb yn ei sbwyllo wrth drïo'i addasu ar gyfer ffilm. Dyna sut roeddwn i'n teimlo wrth glywed bod nofel Yann Martel yn dod allan ar y sgrin fawr. Ni allai unrhyw ffilm wneud cyfiawnder â'r llyfr, meddyliais i.

Ond roeddwn i'n anghywir. Mae'r ffilm yn cadw'n agos at y nofel wreiddiol, ac yn llwyddo'n arbennig i gyfleu prydfferthwch a dychymyg y llyfr, yn arbennig os gwyliwch chi hi mewn 3D. Mae'r munudau cyntaf sy'n dangos zoo yn India yn gofiadwy iawn, ac felly hefyd rhai o'r delweddau o'r cwch bach ar y môr mawr, llonydd. Yn groes i lawer o ffilmiau sy'n addasiadau o nofelau, dydych chi ddim yn teimlo eich bod yn cael eich rhuthro drwy'r naratif, heb gyfle i oedi'n foethus. Mae Ang Lee, y cyfarwyddwr, i'w ganmol yn fawr.

Dyma un o'r nofelau mwyaf gwreiddiol i mieidarlenners amser. Hanes Piscine Molitor Patel sydd yma, neu 'Pi' fel mae'n dewis cael ei adnabod. Gellir rhannu'r naratif

yn dri. Y cychwyn yw magwraeth Pi yn yr India, ble mae ei dad yn berchen ar zoo. Mae ei fam yn dilyn y grefydd Hindwiaeth ac mae ei dad yn agnostig. Ond mae Pi yn cael ei ddenu at Gristnogaeth Babyddol a hefyd at grefydd Islam, ac mae'n penderfynu dilyn y tair crefydd wahanol hyn oherwydd ei fod eisiau defnyddio pa gyfrwng bynnag y gall i garu Duw. Yn hyn o beth mae Pi yn debyg i lawer o bobl ein cymdeithas sy'n credu bod sawl llwybr at Dduw.

Mae'r teulu yn ymfudo i Ganada a dyna gychwyn prif ran y nofel, sef llongddrylliad pan gaiff Pi ei hunan ar fad achub – yng nghwmni sebra, orangwtan, hiena a theigr. Mae Pi yn goroesi dros 200 o ddyddiau ar y bad achub gyda Richard Parker y teigr. Pan mae'n agos at farwolaeth mae'n galw ar Dduw i'w arbed. Dyma ran fwyaf gwreiddiol y llyfr, gyda'r ddau gymeriad annisgwyl yn gorfod dysgu cyd-fyw yn anesmwyth. Er bod hyn yn ymddangos mor annhebygol ar yr olwg gyntaf, wrth ddarllen y llyfr ac wrth weld y ffilm mae'n syndod o gredadwy.

of Pi

Yn adran ola'r ffilm a'r llyfr daw swyddogion i holi Pi ynglŷn â manylion y llongddrylliad a sut y llwyddodd i oroesi. Maen nhw'n amau ei stori. Felly mae Pi yn cynnig fersiwn gwahanol o'r hanes, un sy'n llawer mwy credadwy a rhesymegol. Mae'n gofyn i'r swyddogion pa fersiwn y mae'n well ganddyn nhw ei gredu – yr un y gellir ei gredu'n rhesymegol neu'r un sydd y tu hwnt i ddeall. Dywed, *'Life is hard to believe, ask any scientist. God is hard to believe, ask any believer. What is your problem with hard to believe?'*

Mae sawl peth sydd o ddiddordeb i'r Cristion yn y ffilm hon. Er bod Pi yn credu bod Hindwiaeth, Cristnogaeth

ac Islam yn gallu eistedd ochr yn ochr, mae'r Beibl yn dysgu'n glir mai **un** Gwirionedd sydd, am fod Iesu Grist wedi dweud, 'Myfi yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd'. Ar y llaw arall mae'r llyfr yn cydnabod y gwacter sydd mewn dyn heb Dduw, a'i ddyhead gwaelodol i brofi cymdeithas â Duw. Dywed, *'The presence of God is the finest of rewards.'* Gallwn groesawu'r ffaith bod *Life of Pi* yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i Dduw, a bod enw Crist o leiaf yn cael ei barchu yma. Gallaf argymhell y ffilm fel addasiad gonest o nofel ddychmygus, darn prydferth o sinematograffi, a chyfrwng i godi sawl cwestiwn buddiol a phwysig.



Blwyddyn New

Leri George

Beth y'ch chi fel arfer yn gwneud i ddathlu'r Flwyddyn Newydd? Yn aml gallwn deimlo'n eitha blinedig ar ôl rhuthr gweithgarwch Nadolig, a ddim digon o egni gennym drefnu unrhywbeth. Doedd gennym ni ddim unrhyw gynlluniau pendant eleni. Clywon ni fod gwyliau newydd yn cael ei drefnu ym Mryn-y-Groes am dair noson a meddwl 'pam lai?'

Erbyn Rhagfyr 31, ar ôl teithio ar heolydd troellog, llawn defaid, er mwyn osgoi Machynlleth (oedd dan ddŵr), roeddem yn dechrau cael panig ar ôl pasio Dolgellau a heb ffeindio garej ar agor am betrol eto. Dechreuodd y cwestiwn "Pam?" ddod i'r meddwl!

O fewn munudau o gyrraedd Bryn-y-Groes, fodd bynnag, roedden ni wedi mwynhau



ydd Dda

croeso cynnes, cael plataid o fwyd a phaneidiau a'n gwahodd tu fas i wyllo'r tân gwyllt. O fewn dwy awr o gyrraedd, roedd y plant yn gyffyrddus yn eu gwelyau a Dewi a finnau'n eistedd i lawr gyda chriw o ffrindiau hen a newydd i wledd 3 cwrs. Roedd pethau'n argoeli'n dda.

Roedd awyrgylch y gwyliu yn debyg i fod ar wersyll (ond yn fwy anffurfiol) neu ar wyliau capel. Trefnwyd sawl gweithgaredd fel nosweithiau gemau, twmpath, bowlio deg yng Nglanllyn a mynd am dro o amgylch y llyn. Roedd digon o amser i siarad dros baneidiau ac roedd hi'n braf cwrdd a rhai am y tro cyntaf, ynghyd â gweld hen ffrindiau. Yn hyn o beth roedd y plant yn esiampyl – yn dod yn ffrindiau da o fewn munudau o gyfarfod rhai plant am y tro cynta. Ac ar ôl deuddydd roedd Gwennan wedi dechrau siarad fel ei ffrindiau bach o'r Gogledd hefyd!

Agorodd Emyr a Gwydion y Gair inni yn ystod y tri sesiwn boreol o addoli gyda'n gilydd. Roedd yn dda cael cychwyn blwyddyn newydd yn y astudio Gair Duw ac yn addoli Duw gyda'n cyd-Gristnogion dros beth oedd yn teimlo fel Sul estynedig, cyn dychwelyd nol i hwrlu bwrli tymor ysgol.

Rwy'n deall bod bwriad cynnal Blwyddyn Newydd Dda eto. Byddwn i'n eich annog yn gryf i ystyried – a bydd 3 rheswm arall i wneud y daith i fyni erbyn Rhagfyr eleni!



Newyddion

Diolch i'r criw (mawr) o bobl yr eglwys fu wrthi'n trefnu a chynorthwyo gyda chlwb Sbri. Cafodd y plant lawer o hwyl yn dysgu am hanesion cynta'r Beibl, a chanu, gwneud crefftau a phob math o gemau dros dridiau ar ddechrau hanner tymor Chwefror.

Mae Rebecca Jones wedi bod ym Mangladesh ers deufis bellach. Parhawn i gofio amdani wrth iddi geisio ymgartrefu a dod i nabod staff yn yr ysbyty lle mae hi'n gweithio. Gobeithio y medrwn gynnwys tipyn o'i hanes yn *Cwmpawd* cyn bo hir.

Ers cyhoeddi rhifyn diwethaf *Cwmpawd* mae Iwan Davies ac Ann Davies ill dau wedi colli ffrindiau agos. Parhawn i weddio am y ddau yn eu colled ac wrth iddynt geisio cefnogi teuluoedd y ddau ffrind.

Mae yna sawl achlysur arbennig ym mywyd yr eglwys ar y gorwel. Felly, i'w nodi:

Ebrill 4 - 6 Gwyliau'r Capel...

...yng Nghanolfan Cristnogol Haven ym Mhenfro. Cysylltwch â Leri neu Bethan George os ydych chi am ddod ac heb roi'ch enwau eto.

Ebrill 20 - Oedfa Fedydd

Pnawn Sadwrn (5pm) yn Eglwys Minster. Te i ddilyn.

Mai 11 - Diwrnod Eglwysî'r De yn Nhrefeca

Pawb sy'n dod i roi'ch enwau i Rhian Williams plis.

Mehefin 8 - Gwasanaeth Ordeinio Trystan ac Emyr

Yn Eglwys Highfields. Manylion eto i ddod.

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mercher | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 12.00am

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Trefniadau'r Pasg...

Gwener y Groglith - Mawrth 29 | 10.00am | Trystan Hallam

Bore Sul y Pasg - Mawrth 31 | 10.00am | Trystan Hallam

Nos Sul y Pasg - Mawrth 31 | 6.00pm | Gwynn Williams

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org